# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Cod Llywodraethu Corfforaethol

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

## Adolygu

| Fersiwn | Dyddiad effeithiol | Perchennog y Ddogfen | Sbardun Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|
| 2 | 26/10/22 | Rheolwr y Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd | Bob 3 blynedd neu oherwydd newidiadau deddfwriaethol, canllawiau, argymhellion archwilio, llywodraethu neu sefydliadol. |

## Cynulleidfa Darged

Swyddogion APCAP, Aelodau a rhanddeiliaid allanol

### Ymgynghoriadau

| Grŵp | Dyddiad |
|---|---|
| Tîm Arwain | Awst 2022<br>Cyfarfod 4/9/22 |
| Aelodau | Medi 2022 |

## Cymeradwyaeth

Mae angen y gymeradwyaeth ganlynol ar gyfer y ddogfen hon.

| Cymeradwywyd gan | Enw | Dyddiad | Llofnod |
|---|---|---|---|
| Yr Awdurdod Parc Cenedlaethol | **Tegryn Jones** | **26/10/22** | **Ar Ffeil** |
| | **Cynghorydd Di Clements** | **26/10/22** | **Ar Ffeil** |

**Cynnwys**

Cyflwyniad ..... 3
Pam mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol? ..... 4
Beth yw Llywodraethu Corfforaethol? ..... 5
Pam fod angen Cod Llywodraethu Corfforaethol arnom? ..... 5
Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod ..... 7
Egwyddor 1: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith ..... 6
Egwyddor 2: Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid ..... 7
Egwyddor 3: Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy ..... 7
Egwyddor 4: Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ..... 8
Egwyddor 5: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion o'i fewn ..... 9
Egwyddor 6: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref ..... 10
Egwyddor 7: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol ..... 11
Monitro ac Adolygu ..... 12
Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ..... 13
Atodiad 1 - Strwythur Pwyllgorau ..... 14
Atodiad 2 – Rhestr o Ddogfennau Allweddol ..... 15
Atodiad 3 - Hanes y Fersiwn ..... 16

**Cyflwyniad**

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi mai dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc.
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.

Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan bod gan yr Awdurdod ddyletswydd i feithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol i geisio cyflawni'r dibenion hyn.

Mae’r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi ymrwymo i egwyddorion llywodraethu corfforaethol da wrth gyflawni ei ddibenion statudol. Drwy ddatblygu, mabwysiadu a pharhau i weithredu a monitro Cod Llywodraethu Corfforaethol mae'r Awdurdod yn cadarnhau'n ffurfiol ei ymrwymiad a'i fwriadau parhaus.

Yn bwysig, mae’r Cod Llywodraethu Corfforaethol:

- Yn disgrifio'n gynhwysfawr ymrwymiad yr Awdurdod i lywodraethu corfforaethol, a'i ddealltwriaeth ohono, ac mae'n amlinellu'r trefniadau y mae wedi'u rhoi ar waith i sicrhau gweithredu a monitro effeithiol parhaus.

- Yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymrwymiad ar y cyd gan Aelodau a swyddogion i'r egwyddorion sydd yn y Cod, yn ogystal â datganiad o sicrwydd wedi'i lofnodi ar y cyd gan Gadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod egwyddorion llywodraethu corfforaethol nid yn unig wedi'u gwreiddio'n llawn a'u rhaeadru ledled yr Awdurdod, ond eu bod yn cael cefnogaeth lawn yr holl Aelodau yn ogystal â'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arwain.

- Yn ymgorffori’r egwyddorion datblygu cynaliadwy a’r nodau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn ystyried Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn unol â hynny, mae ein prosesau gwneud penderfyniadau yn sicrhau ein bod yn cadw’r egwyddorion canlynol wrth galon y gwaith o gynllunio strategol a chyflawni gweithredol er mwyn cyfrannu at y Nodau Llesiant:

- **Adran 5 (Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol [Cymru] 2015): Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a’r pum ffordd o weithio:**

    ✓ Hirdymor
    ✓ Integreiddio
    ✓ Cydweithio
    ✓ Cynnwys
    ✓ Atal

- **Adran 4 (Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol [Cymru] 2015): Nodau Llesiant :**

  - ✓ Cymru lewyrchus
  - ✓ Cymru Gydnerth
  - ✓ Cymru Iachach
  - ✓ Cymru Fwy Cyfartal
  - ✓ Cymru o Gymunedau Cydlynus
  - ✓ Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu
  - ✓ Cymru sy’n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang

- **Adran 6 (Deddf yr Amgylchedd [Cymru] 2016): Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau**

- **Adran 4 (Deddf yr Amgylchedd [Cymru] 2016): Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:**

  - ✓ Rheoli addasol
  - ✓ Graddfa
  - ✓ Cydweithio ac ymgysylltu
  - ✓ Cyfranogiad y cyhoedd
  - ✓ Tystiolaeth
  - ✓ Manteision lluosog
  - ✓ Hirdymor
  - ✓ Camau ataliol
  - ✓ Meithrin cydnerthedd

**Pam mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol?**

Mae mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ffordd arall y mae’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn dangos ei fod yn cydnabod bod llywodraeth leol effeithiol yn dibynnu ar sefydlu a chynnal hyder pobl leol yn Aelodau a swyddogion yr Awdurdod. Mae llywodraethu corfforaethol da yn sail i hygrededd a hyder yn yr arweinyddiaeth ac yn sylfaen ar gyfer darparu holl wasanaethau'r Awdurdod.

Mae mabwysiadu, monitro a chydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol yn helpu i wella cyfreithlondeb yr Awdurdod ac yn cynyddu'r ymddiriedaeth a roddir yn yr Awdurdod gan gymunedau lleol, ymwelwyr a rhanddeiliaid eraill.

Mae llywodraethu clir, cadarn, tryloyw ac ymatebol yn galluogi’r Awdurdod Parc Cenedlaethol i roi dinasyddion yn gyntaf drwy geisio gwireddu ei nodau a’i flaenoriaethau yn effeithiol, a thrwy eu hategu â mecanweithiau priodol ar gyfer rheoli perfformiad a risg. Er mwyn cynnal hyder dinasyddion, rhaid i'r mecanweithiau hyn fod yn gadarn a chael eu gweld yn gadarn.

Yn gyffredinol, mae mabwysiadu ac ymrwymo i’r Cod Llywodraethu Corfforaethol hwn yn gosod sail ar gyfer ymrwymiad Awdurdod cyfan i’r ffordd y mae’n bwriadu:

- Cyflawni ei rôl yn arwain a chynrychioli’r gymuned.
- Cyflawni ei gyfrifoldebau.
- Darparu cyfleoedd i bawb.

- Sicrhau bod ffocws cryf ar y cwsmer ym mhopeth a wna'r Awdurdod.

**Beth yw Llywodraethu Corfforaethol?**

Mae gan yr Awdurdod rôl allweddol wrth gyflawni ei ddibenion statudol er budd ei gymuned leol a'r genedl. Mae llywodraeth leol effeithiol yn dibynnu ar hyder y cyhoedd yn Aelodau a swyddogion yr Awdurdod, ac mae systemau Llywodraethu Corfforaethol effeithiol yn rhoi hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Llywodraethu Corfforaethol yn ymadrodd a ddefnyddir i ddisgrifio'r modd y mae sefydliadau yn cyfarwyddo ac yn rheoli'r hyn a wnânt. Mae Llywodraethu Corfforaethol da yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflawni eu gwasanaethau mewn modd sy'n dangos Egwyddorion Nolan:

- Anhunanoldeb
- Uniondeb
- Gwrthrychedd
- Atebolrwydd
- Didwylledd
- Gonestrwydd
- Arweinyddiaeth

Ar gyfer awdurdodau lleol mae hyn hefyd yn cynnwys y modd y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ymwneud â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gweld Llywodraethu Corfforaethol fel gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, gan y bobl iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, yn ogystal â'r diwylliant a'r gwerthoedd sy'n llywio ac yn rheoli'r Awdurdod, ac mae'n nodi sut mae'n atebol i'w randdeiliaid ac yn ymgysylltu â hwy.

**Pam fod angen Cod Llywodraethu Corfforaethol arnom?**

Mae Llywodraethu Corfforaethol yn hollbwysig o ran:

- Darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel:
  Yn genedlaethol, mae gwendidau llywodraethu wedi arwain at fethiant gwasanaeth ac, ar adegau, at drasiedïau. Ar y llaw arall, mae gan sefydliadau sy'n perfformio'n dda drefniadau llywodraethu effeithiol.

- Codi ymddiriedaeth y cyhoedd:
  Cynyddir ymddiriedaeth y cyhoedd pan fydd ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu profi yn uchel, a phan welir bod sefydliadau yn agored ac yn onest wrth osod eu safonau a'u cyfeiriad, yn cyfathrebu eu perfformiad, ac yn dysgu o gamgymeriadau.

Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi ymrwymo i egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol da wrth gyflawni ei ddibenion statudol. Drwy ddatblygu, mabwysiadu a

pharhau i weithredu a monitro Cod Llywodraethu Corfforaethol, mae'r Awdurdod yn cadarnhau'n ffurfiol ei ymrwymiad a'i fwriadau parhaus. Mae'r Cod yn gyson ag egwyddorion Fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Fframwaith Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE) ar Gyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (2016) ("y Fframwaith Llywodraeth Leol"):

1. Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.
2. Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid.
3. Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.
4. Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.
5. Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion o'i fewn.
6. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
7. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Mae pob un o'r egwyddorion hyn yn rhan bwysig o drefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn ymateb yn barhaus i sesiynau briffio CIPFA pan gânt eu cyhoeddi.

**Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod**

**Egwyddor 1 : Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith**

Dim ond os oes gan y rhai sy'n dal swydd gyhoeddus y safonau uchaf o ymddygiad ac yn annog eraill i wneud hynny, y gellir cyflawni safonau uchel o ymddygiad a llywodraethu effeithiol.

Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu diwylliant o ymddygiad sy'n seiliedig ar werthoedd a rennir, egwyddorion moesegol ac ymddygiad da.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn drwy fod â'r canlynol yn eu lle a'u hadolygu'n gyson:

- Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cod Ymddygiad Gweithwyr.
- Protocol Aelodau/Swyddogion (i'w ddatblygu).
- Rhaglen effeithiol o ddatblygu Aelodau sy'n cwmpasu'r Codau Ymddygiad.
- Cofrestri Buddiannau, Lletygarwch a Rhoddion.
- Rheolau Gweithdrefn Contractau a Safonau Ariannol.
- Polisïau Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo, a Chwythu'r Chwiban.
- Y Pwyllgor Safonau.

- Gweithdrefn gwyno.
- Polisi a Gweithdrefn Achwyn.

**Egwyddor 2 : Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid**

Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i ymgysylltu'n llawn ag ystod amrywiol a chynhwysfawr o randdeiliaid i sicrhau a dangos ei ymrwymiad i weithredu mewn ffyrdd sy'n agored, yn effeithiol, ac sy’n cael eu gweld felly. Bydd yn defnyddio prosesau sy’n hygyrch, yn dryloyw, wedi’u cynllunio ac sydd ag adnoddau addas, gyda’r nod o sicrhau safbwyntiau ac ymatebion gan y gymuned gyfan a’r holl randdeiliaid.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn drwy:

- Ffurfio a chynnal perthnasoedd agored sy’n parchu ei gilydd gyda grwpiau rhanddeiliaid ac arweinwyr sefydliadau eraill.
- Darparu a chefnogi ffyrdd i'r cyhoedd gyfathrebu a chyflwyno dyheadau a phryderon y gymuned i'r Awdurdod.
- Gweithio gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i helpu cwsmeriaid a rhanddeiliaid ddeall ein priod gyfrifoldebau ac egluro’r ffyrdd yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth.
- Sicrhau llwybrau a mecanweithiau amrywiol, effeithiol ac ystyrlon ar gyfer ymgynghori er mwyn casglu a chwmpasu barn pob parti.
- Cynnal ac adolygu gweithdrefn gwyno effeithiol.
- Gweddarlledu cyfarfodydd yr Awdurdod a’r Pwyllgorau.
- Cynnal gweithdrefnau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn materion cynllunio yn y Pwyllgorau Rheoli Datblygu.
- Ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gweithredu cynllun cyhoeddi yn unol â’r gofynion statudol.

**Egwyddor 3 : Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy**

Mae dibenion a dyletswyddau’r Awdurdod wedi'u nodi gan Ddeddf yr Amgylchedd (1995). Hefyd mae’n ofynnol i’r Awdurdod gael Amcanion Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015) a rhaid iddo ystyried y dyletswyddau a ganlyn:

- Adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Safonau'r Gymraeg.

Bydd yr Awdurdod yn diffinio ei ganlyniadau drwy gyhoeddi:

- Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol, sy'n nodi diben a gweledigaeth yr Awdurdod ar gyfer yr ardal y mae'n gyfrifol amdani.
- Y Cynllun Datblygu Lleol ac unrhyw gynllun(iau) olynol, sy'n nodi’r polisi cynllunio lleol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol.
- Y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau, sy’n nodi Amcanion Llesiant a datganiad yr Awdurdod, cyfraniad yr Awdurdod at y Nodau Llesiant, a’r modd y mae'r Awdurdod yn ystyried yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, y 5 ffordd o weithio.

Bydd cynlluniau yn destun ymgynghori ac asesiadau perthnasol fel rhan o'r gwaith o’u datblygu.

Bydd yr Awdurdod yn adrodd ar ei berfformiad yn erbyn canlyniadau a glustnodwyd yn flynyddol drwy ei Adroddiadau Blynyddol priodol.

Bydd yr Awdurdod yn rhoi cyhoeddusrwydd i effaith ei brosiectau a'i weithgareddau drwy'r wasg a chyfryngau eraill.

Bydd yr Awdurdod yn ystyried Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a Dangosyddion Cenedlaethol a Cherrig Milltir ar gyfer Cymru wrth ddiffinio ei ganlyniadau.

**Egwyddor 4 : Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl**

Mae gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn rhan sylfaenol o lywodraethu corfforaethol da. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau fod yn drylwyr wrth archwilio opsiynau ac ystyried risg. Mae angen iddynt hefyd fod yn agored i ystyried sylwadau a barn o bob sector o'r gymuned.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer yr Aelodau, yr Uwch Dîm Rheoli, y Tîm Arwain ac unrhyw gorff neu grŵp arall sy’n gwneud penderfyniadau, yn cynnwys asesiad risg ysgrifenedig priodol sy’n berthnasol i’r maes pwnc a graddfa’r mater dan sylw. Gall yr asesiad risg gynnwys:

- Y goblygiadau ariannol, cyfreithiol ac adnoddau dynol (bydd awduron yr adroddiadau yn atebol os ydynt yn rhoi cyngor eu hunain).
- Asesiadau integredig neu grynodebau o asesiadau sy'n talu sylw i effeithiau Cydraddoldeb, Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, y Gymraeg, Bioamrywiaeth ac Allyriadau Carbon.
- Asesiadau o Effaith Diogelu Data.
- Cofrestr Risg, fframwaith, a chamau lliniaru.

Bydd yr Awdurdod hefyd:

- Yn sicrhau bod adroddiadau gwneud penderfyniadau yn cynnwys cyngor gan swyddogion perthnasol ac yn egluro’r cefndir mewn modd agored a thryloyw.
- Sylwadau manwl o’r ymgynghori ac ymatebion yr Awdurdod i'r sylwadau hynny.
- Cofnodi pob penderfyniad a wneir gan Bwyllgorau neu a ddirprwyir i’r swyddogion, a sicrhau bod y cyfryw fanylion ar gael i'r cyhoedd.

- Cynnal rheolau a gweithdrefnau sy'n dangos sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud, megis cylch gorchwyl a chofnodion.
- Datblygu a chynnal swyddogaeth graffu effeithiol sy'n annog herio adeiladol ac agored.

Bydd gan yr Awdurdod ddulliau o Reoli Risg sy'n cynorthwyo i gyflawni ei nodau a'i flaenoriaethau corfforaethol, yn diogelu’r Awdurdod rhag bod yn agored i risg, gan gynnwys risg i enw da ac asedau’r Awdurdod, ac sy'n cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol yn ogystal ag arferion da.

Bydd gan yr Awdurdod gynlluniau cyflawni perthnasol yn eu lle i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei ganlyniadau gweithredol.

Bydd Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yr Awdurdod yn cynnal yr adolygiadau chwarterol canlynol:

- Cynllunio cyllidebol ac ariannol, a gwariant gweithredol yn ogystal â phrosiectau,
- Cofrestr Risg yr Awdurdod gan gynnwys risgiau strategol, gweithredol a datblygol.

Bydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn derbyn adroddiadau chwarterol ar berfformiad yn erbyn Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau'r Awdurdod.

**Egwyddor 5: Datblygu gallu’r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a’r unigolion o’i fewn**

Mae sicrhau bod gan yr Aelodau a’r swyddogion y sgiliau angenrheidiol i redeg y sefydliad yn agwedd bwysig ar lywodraethu.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Awdurdod yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i berfformio'n dda.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn drwy’r canlynol:

- Gweithredu Strategaeth Datblygu Aelodau.
- Datblygu ac adolygu disgrifiadau rôl yr Aelodau ar gyfer y gwahanol rolau a gyflawnir o fewn yr Awdurdod.
- Datblygu sgiliau arwain, galluoedd cyffredinol, a chapasiti ar draws yr Awdurdod.
- Gwella a chynnal yn barhaus y broses o arfarnu perfformiad personol y staff.
- Datblygu a chynnal y broses o Adolygu Datblygiad Personol yr Aelodau.
- Rhaeadru gwybodaeth i’r Aelodau ac i’r swyddogion.
- Cyfrannu at y meini prawf ar gyfer dewis Aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru a’r rhai a enwebir i’r Awdurdod gan Gyngor Sir Penfro.

Mae arweinyddiaeth effeithiol yn gofyn am eglurder ynghylch rolau Aelodau'r Awdurdod a pharch a chydnabyddiaeth ar gyfer swyddogaeth briodol o graffu. Yn

ogystal â hyn, mae perthynas waith adeiladol rhwng yr Aelodau a’r staff, a pharch at bob un o'r rolau hyn, yn hanfodol.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y rolau a'r cyfrifoldebau angenrheidiol ar gyfer llywodraethu'r Awdurdod yn cael eu clustnodi a'u dyrannu fel ei bod yn glir pwy sy'n atebol am y penderfyniadau a wneir.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn drwy’r canlynol:

- Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol.
- Penodi Pwyllgorau yn flynyddol i gyflawni cyfrifoldebau'r Awdurdod (Ceir manylion y Pwyllgorau yn Atodiad 1).
- Cynnal cynllun o ddirprwyo cyfrifoldebau’r Awdurdod i'r Prif Weithredwr.
- Cofnodi pob penderfyniad a wneir gan Bwyllgorau neu a ddirprwyir i’r swyddogion a sicrhau bod y manylion ar gael i'r cyhoedd.
- Sicrhau bod gan bartneriaethau’r Awdurdod drefniadau llywodraethu clir gan gynnwys eglurder ynghylch statws cyfreithiol y bartneriaeth a rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid.
- Dal y rhai sy’n gwneud penderfyniadau i gyfrif.

**Egwyddor 6: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref**

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod ganddo system gadarn ac effeithiol o reolaeth fewnol yn ei lle, a adolygir yn flynyddol yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol (a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Blynyddol).

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod ei ddulliau o reoli risg:

- yn clustnodi ac yn rheoli risgiau yn ffurfiol.
- yn cynnwys yr Aelodau, yr Uwch Dîm Rheoli, y Tîm Arwain a’r swyddogion yn y broses o reoli risg.
- yn cysylltu risgiau â rheolaethau ariannol a rheolaethau mewnol allweddol eraill.
- yn ymgorffori cynllunio gwasanaeth a pharhad busnes.
- yn adolygu ac, os oes angen, diweddaru ei brosesau rheoli risg o leiaf unwaith y flwyddyn.

Bydd yr Awdurdod yn gwneud trefniadau i sicrhau bod diogelu data, rhyddid gwybodaeth, a threfniadau diogelwch seiber a mesurau atebolrwydd yn eu lle ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys:

- Penodi swyddogion cyfrifol gan gynnwys Swyddog Diogelu Data.
- Cwblhau asesiadau cysylltiedig gan gynnwys Asesiadau Effaith Diogelu Data.
- Cael polisïau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle i sicrhau diogelu gwybodaeth, data ac asedau’r sefydliad a rhanddeiliaid.

Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â safonau cyfreithiol, arferion da, a chanllawiau gan y llywodraeth a chyrff proffesiynol ac yn llunio cyfrifon a datganiadau blynyddol yn unol â chanllawiau CIPFA.

Mae’r Awdurdod yn rheoli perfformiad drwy’r camau canlynol:

- Gweithio'n agos gydag archwilwyr mewnol ac allanol i sicrhau bod ei brosesau'n cydymffurfio â'r gyfraith ac arferion da.
- Adolygu arferion a gweithredu’r argymhellion a wneir drwy archwilio mewnol ac allanol.
- Casglu gwybodaeth am berfformiad yn barhaus drwy ei system o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad, gyda’r adroddiadau ar berfformiad yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol er mwyn i'r Aelodau wneud sylwadau arnynt a chraffu arnynt.
- Adrodd ar berfformiad blynyddol drwy ei Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant.
- Adrodd ar berfformiad yn erbyn ei Gynllun Datblygu Lleol a chynllun(iau) olynol, drwy adroddiad monitro blynyddol.
- Cymryd rhan yng ngofynion Llywodraeth Cymru ar adrodd ar berfformiad gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud â chynllunio gwasanaethau ac adrodd ar allyriadau carbon sero net.
- Adrodd yn flynyddol ar ei stiwardiaeth o'i adnoddau a dangos Gwerth am Arian drwy Ddatganiadau Ariannol Blynyddol.
- Darparu diweddariadau ar berfformiad y gyllideb i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol. Anfonir adroddiadau ar fonitro’r gyllideb yn fisol at arweinwyr cyllideb.
- Asesu ei berfformiad yn erbyn y Cod hwn a nodi meysydd sydd i’w gwella drwy ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Egwyddor 7 : Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol**

Bydd yr Awdurdod yn agored ac yn onest yn ei ymddygiad ac yn y modd y mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a’u cofnodi, drwy’r canlynol:

- Sicrhau bod adroddiadau gwneud penderfyniadau yn cynnwys cyngor gan swyddogion perthnasol ac yn egluro’r cefndir mewn modd agored a thryloyw.
- Cofnodi pob penderfyniad a wneir gan Bwyllgorau neu a ddirprwyir i swyddogion, a sicrhau bod y manylion ar gael i'r cyhoedd.
- Cael rheolau a gweithdrefnau sy'n dangos sut y gwneir penderfyniadau, megis cylch gorchwyl a chofnodion.
- Datblygu a chynnal swyddogaeth graffu effeithiol sy'n annog herio adeiladol.
- Cyhoeddi Papurau Pwyllgor gan gynnwys Agendâu a Chofnodion ar Wefan yr Awdurdod, yn amodol ar eithriadau a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus gan gynnwys ffrydio cyfarfodydd Pwyllgor yn fyw, yn amodol ar eithriadau a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Sicrhau bod penderfyniadau yn destun asesiadau perthnasol.

- Cynnal gweithdrefnau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn Pwyllgorau Rheoli Datblygu.
- Darparu ei adroddiadau a'i wybodaeth yn agored er mwyn i'r cyhoedd gael golwg arnynt a chraffu arnynt.

Bydd yr Awdurdod yn hyrwyddo atebolrwydd ac yn datblygu diwylliant o welliant parhaus drwy:

- Sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau Aelodau, gweithwyr, ac eraill y mae'r Awdurdod yn gweithio gyda hwy.
- Bod yn rhagweithiol o ran meithrin a llywio gwelliannau, gan gynnwys adolygu arferion a gweithio'n agos gydag archwilio mewnol ac allanol i glustnodi ac ymgorffori gwelliannau ac arfer da.

Bydd yr Awdurdod yn adrodd yn rheolaidd, fel mater o drefn ac yn glir:

- Ei berfformiad a'i stiwardiaeth o adnoddau yn barhaus yn erbyn ei amcanion, ei gynlluniau (a chynlluniau olynol), a thargedau.
- Drwy ei strwythur o bwyllgorau a chyrff, a'i ofynion adrodd blynyddol a statudol a Datganiadau Llywodraethu.
- Drwy adroddiadau sy'n agored i bawb.
- Tystiolaeth o gywirdeb, effeithiolrwydd, gwerth am arian, a chyflawniadau.
- Dangos ei gynllunio strategol, gweithredol ac ariannol a'i gymhelliant i wella.
- Sicrhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid yn y modd y mae'n cymhwyso'r cod hwn drwy ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Monitro ac Adolygu**

Mae Llywodraethu Corfforaethol Da yn gofyn am y canlynol:

- Goruchwyliaeth strategol effeithiol a chadarn gan yr Awdurdod.
- Cyfranogiad brwd a pherchnogaeth gan yr Aelodau a'r staff ar draws yr Awdurdod.
- Datblygu, gweithredu a gwella diwylliant a pherfformiad Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod yn barhaus.
- Paratoi, mabwysiadu a chynnal Cod Llywodraethu Corfforaethol cyfoes, gan gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau bod y Cod yn cael ei weithredu a'i gymhwyso yn barhaus.
- Cydlynu ac adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Hyrwyddo arfer gorau mewn Llywodraethu Corfforaethol ar draws yr Awdurdod.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus drwy'r canlynol:

- Cefnogi gwaith yr Archwilio Mewnol ac Allanol yn rhagweithiol, a mabwysiadu argymhellion.
- Diweddaru ei arferion a'i ymddygiad yn unol ag adroddiadau a baratowyd gan reolwyr sy'n gyfrifol am agweddau o'r Cod hwn.
- Asiantaethau adolygu ac Arolygiaethau eraill.

**Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Bob blwyddyn bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, fydd yn rhoi asesiad cyffredinol o drefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod, ac arfarniad o'r mesurau rheoli allweddol sydd yn eu lle i reoli risgiau llywodraethu allweddol yr Awdurdod.

Bydd y Datganiad hefyd yn rhoi manylion ynghylch lle mae gwelliannau wedi'u gwneud, neu lle mae angen eu gwneud.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan Dîm Arwain yr Awdurdod a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod, cyn i'r Datganiad gael ei lofnodi gan Gadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyhoeddi fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol yr Awdurdod a bydd yn cael ei archwilio gan ein Harchwilwyr Allanol.

**Llofnodwyd**

| | |
|---|---|
| **Ar Ffeil** | **Ar Ffeil** |
| **(Cadeirydd)** | **(Prif Weithredwr)** |

**Atodiad 1 : Strwythur Pwyllgorau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol:**
Mae pob un o'r 18 Aelod yn cyfarfod tua 8 gwaith y flwyddyn.

**Pwyllgor Rheoli Datblygu:**
Mae pob un o’r 18 Aelod yn cyfarfod bob 6 – 8 wythnos.

**Pwyllgor Adnoddau Dynol:**
Mae’r 9 Aelod (6 Aelod Etholedig Cyngor Sir Penfro [CSP], 3 Aelod Llywodraeth Cymru [LlC]) yn cyfarfod bob chwarter.

**Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol:**
Mae’r 9 Aelod (6 Aelod Etholedig CSP, 3 Aelod LlC) yn cyfarfod bob chwarter.

**Pwyllgor Adolygu Gweithredol:**
Mae’r 9 Aelod (6 Aelod Etholedig CSP, 3 Aelod LlC) yn cyfarfod bob chwarter.

**Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau:**
Mae’r 9 Aelod (6 Aelod Etholedig CSP, 3 Aelod LlC) yn cyfarfod bob chwarter.

**Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy:**
Mae’r 6 Aelod (4 Aelod Etholedig CSP, 2 Aelod LlC) yn cyfarfod bob chwarter.

**Fforwm Gweithwyr:**
Mae’r 6 Aelod (4 Aelod Etholedig CSP, 2 Aelod LlC) a 6 swyddog yn cyfarfod bob chwarter.

**Y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu:**
Mae’r 5 Aelod yn cyfarfod yn ôl y gofyn.

**Pwyllgor Cwynion:**
Mae’r 5 Aelod yn cyfarfod yn ôl y gofyn.

**Pwyllgor Apeliadau:**
Mae’r 5 Aelod yn cyfarfod yn ôl y gofyn.

**Y Pwyllgor Safonau:**
Mae’r 3 Aelod (2 Aelod Etholedig CSP, 1 Aelod LlC) a 4 Aelod Annibynnol yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

**Atodiad 2 : Rhestr o'r Dogfennau Allweddol**

Rhestr o ddogfennau allweddol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

- Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.
- Cynllun Datblygu Lleol 2.
- Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau.
- Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb.
- Y Strategaeth Iaith.
- Dogfen Cyfeirio APCAP – Dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Datganiad Cyfrifon.
- Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni'r Amcanion Llesiant.
- Adroddiad Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol.
- Cod Llywodraethu Corfforaethol.
- Y Safonau Ariannol.
- Safonau'r Gymraeg.
- Safonau Gwasanaethau Cwsmeriaid.
- Cod Ymddygiad Aelodau.
- Fframwaith Ymddygiad Rheolwyr.
- Cod Ymddygiad Gweithwyr.
- Polisi Gorfodaeth Cynllunio a Chydymffurfiaeth.
- Polisi Amgylcheddol.
- Polisi Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn.
- Polisi Gwirfoddolwyr.
- Polisi Cyfle Cyfartal.
- Polisi Diogelu Data.
- Polisi Defnyddwyr TGCh.
- Polisi Diogelu Gwybodaeth a Data.
- Polisi Rheoli Asedau.
- Polisi Caffael Cynaliadwy.
- Polisi Urddas yn y Gweithle.
- Polisi Chwythu'r Chwiban.
- Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo.
- Polisi Iechyd a Diogelwch.
- Cynllun Cyhoeddi.

**Atodiad 3 : Hanes Fersiynau**

| **Fersiwn** | **Dyddiad effeithiol** | **Crynodeb o'r Newidiadau** |
|---|---|---|
| 2 | 26/10/22 | Diweddaru Egwyddorion Llywodraethu i ddod â'r egwyddorion yn unol â chanllawiau CIPFA a Solace, cryfhau'r cyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a diweddaru meysydd perthnasol o ran y trefniadau Llywodraethu presennol. |